

Trawsblannu Organau: Ymlaen at 2020 – Cynllun Gweithredu Cymru

Cynllun hyd at 2020 ar gyfer GIG Cymru a'i Bartneriaid
Sicrhau bod pob rhodd organau yn cyfrif





Argraffwyd ar bapur wedi'i ailgylchu

ISBN argraffu 978 1 4734 0527 1

ISBN digidol 978 1 4734 0526 4

© Hawlfraint y Goron 2013

WG20342

Rhagair y Gweinidog



Mae Deddf Trawsblannu Dynol 2013 wedi bod yn destun cryn drafod a dadlau yma yng Nghymru. Er hyn, un elfen yn unig yw'r symudiad at 'gydsyniad a ystyrir' (deemed consent) yn ein hawydd i wella'r ffordd yr ydym yn rhoi a thrawsblannu organau yng Nghymru. Mae rhoi a thrawsblannu organau'n rhywbeth cymhleth ac amlweddol: ni fydd dim byd ar ei ben ei hun yn chwyldroi cyfraddau rhoi a thrawsblannu – gwyddom fod hyn yn wir o brofiad lleoedd eraill yn y byd. Bydd gweithredu Deddf Trawsblannu Dynol (Cymru) 2013 yn helpu i gyflawni chwyldro mewn cydsynio yng Nghymru, ond rydym bob amser wedi bod yn glir mai un rhan mewn cyfres o gamau gweithredu yw hyn.

Yn gynharach eleni, fe wnaeth Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG, y sefydliad sy'n rheoli cofrestr rhoddwyr organau'r GIG a dyrannu organau, gyhoeddi 'Mynd â Thrawsblannu Organau i'r Flwyddyn 2020' ar ran gweinyddiaethau'r DU. Roeddwn yn falch o gefnogi'r Strategaeth gyffredinol hon ar gyfer rhoi a thrawsblannu organau. Mae'r Cynllun Gweithredu'n pennu sut y rhoddir hyn ar waith yng Nghymru a hefyd yn ychwanegu cyd-destun Cymreig.

Mae angen inni fynd ati gyda'n gilydd dros yr ychydig flynyddoedd nesaf i sicrhau gwelliant parhaus ym mhob agwedd ar roi a thrawsblannu organau – a dyma'n union y mae'r cynllun hwn yn ceisio'i wneud. Mae'n pennu camau gweithredu o'r dechrau i'r diwedd, o sicrhau bod pawb yn cael y cyfle i roi gwybod am eu penderfyniad, beth bynnag fo hwnnw, i sicrhau bod y rheini sy'n derbyn trawsblaniadau'n cael y gofal dilynol priodol. Mae'r Cynllun yn ein hymrwymo i gyflawni canlyniadau penodol erbyn 2020.

Mae angen inni gadw mewn cof y rheswm pam y mae cyflawni'r newidiadau hyn mor bwysig, a'r angen i werthfawrogi pob rhodd o organ. Mae pob rhoddwr a phob teulu sy'n rhoi organau yn haeddu'n diolchiadau a'n cydnabyddiaeth, a'n cyfrifoldeb ni yw sicrhau bod pob rhodd yn cyfrif. Mae angen inni feddwl am y llawer iawn o fywydau a achubir ac a wellheir oherwydd haelioni rhywun arall. Mae'r weithred o roi organau'n fynegiant o'r hyn sydd orau yn y ddynoliaeth ac mewn cymdeithas, ac mae gan y GIG ddyletswydd i wneud popeth a all i wneud i bob rhodd gyfrif.

Ein dymuniad yw cael cyfraddau rhoi a thrawsblannu organau sydd ymysg y gorau yn y byd. Mae'r rhain yn uchelgeisiau heriol ond mae modd eu cyflawni, ac rwy'n edrych ymlaen at adrodd am gynnydd gwirioneddol dros y blynyddoedd nesaf, fel y gellir achub a gwella llawer mwy o fywydau.

Mark Drakeford AC

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Cynnwys

Trosolwg	5
Erbyn 2020, yng Nghymru:	5
Gweithio gyda'n Gilydd	5
Y strategaeth Mynd â Thrawsblannu Organau i'r Flwyddyn 2020 a chysylltiad hyn â Chynllun Gweithredu Cymru	6
Ein taith hyd yma	6
Cynlluniau lleol – gweithredu lleol	6
Bydd rydym am ei gyflawni?	7
Canlyniad 1	7
Canlyniad 2	9
Canlyniad 3	11
Canlyniad 4	13
Meysydd gweithredu eraill	15
Beth sydd angen ei wneud a pha bryd?	16

Trosolwg

Mae llawer wedi digwydd ers i Dasglu Rhoi Organau (ODTF) gwreiddiol y DU wneud ei argymhellion yn 2008. Yn 2013, gyda chefnogaeth holl lywodraethau'r DU, cyhoeddodd Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG 'Mynd â Thrawsblannu Organau i'r Flwyddyn 2020', strategaeth i wella cyfraddau trawsblannu organau ymhellach fyth na'r cynnydd o 50% y galwodd yr ODTF amdano. Mae'r Cynllun Gweithredu hwn ar gyfer Cymru yn pennu'r hyn sydd angen ei wneud yng Nghymru.

Yng Nghymru, rydym wedi pasio deddfwriaeth yn ddiweddar sy'n cyflwyno **system o optio allan o gydysynio o 2015 ymlaen, a fydd yn cynnwys ymgyrch gyfathrebu fawr**. Mae angen gwneud mwy ar draws rhychwant ehangach gan mai dim ond un rhan o'r strategaeth yw cydsynio – er ei fod yn rhan allweddol bwysig.

Er enghraifft:

- Gwyddom fod amgylchiadau lle collir cyfleoedd i roi oherwydd nad yw rhoddwyr posibl yn cael eu cyfeirio at Nyrsys Arbenigol mewn Rhoi Organau. Mae hyn yn wir hyd yn oed mewn amgylchiadau lle mae'r ymadawedig wedi cofnodi ei ddymuniad i roi (er enghraifft, trwy fod ar y Gofrestr, cludo cerdyn rhoddwr neu drwy ddweud am eu dymuniadau wrth ei anwyliad).
- Gwyddom, mewn rhai achosion, nad yw teuluoedd unigolion sydd wedi mynegi dymuniad i roi yn derbyn gwybodaeth na chefnogaeth amserol gan y staff arbenigol sydd wedi eu hyfforddi yn y broses roi.
- Gwyddom fod amrywiad eang mewn cyfraddau rhoi ledled y GIG yng Nghymru. Er y dylid disgwyl rhywfaint o amrywiad gyda niferoedd bach, ni all hyn esbonio'n llawn raddau'r amrywiad a welir.

Rydym am i Gymru fod ymysg y gwledydd sy'n perfformio orau yn y byd o ran rhoi a thrawsblannu organau. Mae'r cynllun hwn yn pennu'r camau gweithredu a'r canlyniadau hyd at 2020 i'n galluogi i gyflawni hyn. Os caiff y camau canlynol eu gweithredu ar y cyd â Deddf Trawsblannu Dynol (Cymru), credwn y dylai cyfraddau rhoi a thrawsblannu yng Nghymru erbyn 2020 fod yn rhai y gellir eu cymharu â'r gwledydd sy'n perfformio orau yn y byd.

Erbyn 2020, yng Nghymru, byddwn wedi:

- Sicrhau bod y cyhoedd yn cael gwybod am roi a thrawsblannu organau ac yn cymryd rhan yn y drafodaeth
- Cynyddu nifer y bobl yng Nghymru sydd wedi rhoi gwybod am eu penderfyniad ynghylch rhoi organau
- Cynyddu nifer yr organau sydd ar gael ar gyfer trawsblannu
- Sicrhau bod pob rhodd yn cyfrif
- Sicrhau bod pob rhan o GIG Cymru'n wybodus ynghylch rhoi a thrawsblannu organau ac yn cefnogi hynny.

Gweithio gyda'n Gilydd

GIG Cymru sy'n gyfrifol am gynllunio, sicrhau a chyflwyno gwasanaethau lleol i hwyluso rhoi a thrawsblannu organau.

Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG (NHSBT) sy'n gyfrifol am reoli nyrsys arbenigol ar gyfer gwasanaethau rhoi a thynnu organau; cofrestr rhoddwyr organau'r GIG a dyrannu organau.

Yr **Awdurdod Meinweoedd Dynol** sy'n gyfrifol am reoleiddio'r defnydd o organau oddi wrth bobl yn y DU. Maent hefyd yn cynnal asesiadau ar gyfer rhoi organau gan bobl sy'n fyw.

Cafodd **Grŵp Cyngorol Cymru ar Drawsblannu** (WTAG) ei sefydlu yn 2012, fel olynydd i Grŵp Gweithredu Cymru ar Roi Organau (WODIG), i gryfhau arweinyddiaeth a goruchwyliaeth ar amrediad ehangach o faterion. Gan gyfarfod yn chwarterol, mae'n rhoi cyngor i Weinidogion Cymru ac i'r GIG yng Nghymru ar bopeth sy'n ymwneud â rhoi organau, trawsblannu a rhoi meinweoedd.

Bu gan y Grŵp rôl allweddol o ran nodi'r blaenoriaethau a throi'r rheini'n gyfres o gamau gweithredu ystyrlon. Mae ganddo rôl arweiniol bwysig hefyd o ran cyflawni'r canlyniadau. Bydd disgwyl i'r grŵp fonitro cynnydd tuag at yr argymhellion a wnaed – yn y cynllun hwn ac yn y Strategaeth ar gyfer y DU yn ei chyfanrwydd – ac adrodd i'r Weinidogion yn flynyddol.

Mae gan y **trydydd sector** rôl bwysig i'w chwarae o ran helpu i roi'r camau gweithredu ar waith a mynegi barn defnyddwyr y gwasanaethau er mwyn helpu i ddatblygu gwasanaethau gwell.

Y strategaeth Mynd â Thrawsblannu Organau i'r Flwyddyn 2020 a chysylltiad hyn â Chynllun Gweithredu Cymru

Mae'r gwaith o ddatblygu Strategaeth newydd ledled y DU ar roi a thrawsblannu organau wedi cael ei gydgyssylltu gan NHSBT ar ran pedair Adran Iechyd y DU. Mae Strategaeth y DU ar gael ar wefan NHSBT ar www.nhsbt.nhs.uk/to2020/resources/

Mae'r Cynllun Gweithredu hwn ar gyfer Cymru'n mynd law yn llaw i raddau helaeth â Strategaeth y DU yng Nghymru, a'i fwriad yw cefnogi'r broses o'i rhoi ar waith. Lle bo dogfen y DU yn pennu egwyddorion cyffredinol ac yn ystyried yr elfennau hynny o roi a thrawsblannu organau a gaiff eu rheoli

neu y gellir ymdrin â hwy orau yn y DU yn ei chyfanrwydd, mae cynllun Cymru'n canolbwyntio'n benodol ar y fframwaith iechyd datganoledig yng Nghymru a'r gweithgareddau a all fod yn unigryw i Gymru neu'n cael eu cyflawni'n wahanol. Mae'r ddwy ddogfen yn gydberthynol ac yn gyd-ddibynnol.

Caiff rhoi a thrawsblannu organau ei gyflawni ar sail gydgysylltiedig a chydweithredol ledled y Deyrnas Unedig. Mae er budd cleifion i sicrhau'r cydweddiad gorau rhwng rhoddwyr a derbynwyr, a'r ffordd orau o gyflawni hyn yw trwy gydweddu organau ymysg y grŵp mwyaf o gleifion. Golyga hyn y byddwn yn cydweithio'n agos â'r rhannau eraill o'r DU.

Ein taith hyd yma

Fel gwledydd eraill y DU, mae Cymru wedi gweithio'n galed i weithredu argymhellion ODTF, a gwnaed cynnydd sylweddol yn ystod y cyfnod o bum mlynedd, er i amrywiadau yn 2012/13 olygu na wnaethom gyrraedd y cynnydd o 50% yn nifer y rhoddwyr yn y flwyddyn derfynol.

- Gwelwyd 56 o roddwyr yn ysbytai Cymru yn 2012/13 o'i gymharu â 45 yn 2007/08.
- Roedd 32% o'r boblogaeth wedi ymuno â'r gofrestr ar ddiwedd 2012/13, o'i gymharu â'r 26% yn 2007/8.
- Gwnaed 211 o drawsblaniadau organau ar dderbynwyr yng Nghymru yn 2012/13 o'i gymharu â 183 yn 2007/08.

Cynlluniau lleol – gweithredu lleol

Mae'n ofynnol i Fyrddau Iechyd Lleol ddatblygu a chyhoeddi cynlluniau lleol sy'n dangos sut y maent yn gweithredu'r camau ac yn adrodd yn flynyddol ar gynnydd.

Bydd rydym am ei gyflawni?

Canlyniad 1

Bydd camau a gymerir gan gymdeithas a chan unigolion yn golygu y bydd record rhoi organau'r DU ymysg y gorau yn y byd ac y bydd pobl yn rhoi organau os gallant a phryd gallant.

- Datblygu strategaethau cenedlaethol i hyrwyddo newid mewn ymddygiad a chynyddu cydsynio.
- Sicrhau ei bod yn hawdd addo cefnogaeth i roi organau. Yna, unwaith y mae addewid wedi'i roi, gwneud yn siŵr bod dymuniad yr unigolyn yn cael ei anrhydeddu.
- Cynyddu ymwybyddiaeth ymysg cymunedau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig o'r angen i roi er budd eu cymunedau eu hunain, a darparu gwell cymorth i bobl yn y cymunedau hyn i roi.
- Dysgu o brofiad y newid deddfwriaethol yng Nghymru ac mewn lleoedd eraill.

Y camau yn Mynd â Thrawsblannu Organau i'r Flwyddyn 2020	Y camau i'w cymryd yng Nghymru	Cyfrifoldeb
Datblygu strategaethau cenedlaethol i hybu newid ymddygiad a chynyddu caniatâd a phrofi'r cynnydd drwy arolygon cyhoeddus rheolaidd.	Gweithredu Deddf Trawsblannu Dynol (Cymru)	Llywodraeth Cymru/ NHSBT
	Gweithredu canllawiau NICE ac arferion da wrth drafod gyda theuluoedd Gwella sgiliau cyfathrebu gweithwyr proffesiynol iechyd wrth siarad gyda chleifion a'u teuluoedd Helpu teuluoedd i barchu dymuniadau eu hanwyliaid	Byrddau Iechyd Lleol/ Cyrff Cydweithredol Rhanbarthol/NHSBT Byrddau Iechyd Lleol
	Comisiynu a chyhoeddi arolygon rheolaidd o agweddau'r cyhoedd	Llywodraeth Cymru
Dylai Adrannau Iechyd perthnasol y Llywodraeth, gyda'r Adrannau Addysg, drafod y posibilrwydd o ymgorffori materion rhoi a thrawsblannu organau o fewn cwrwrlwm yr ysgol.	Manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i gynnwys rhoi organau ar y cwrwrlwm addysg yng Nghymru	Llywodraeth Cymru
	Sicrhau bod pecyn addysg yr ysgolion yn parhau i gael ei gynnal a'i ddiweddarau	Llywodraeth Cymru'n gweithio gyda NHSBT

Y camau yn Mynd â Thrawsblannu Organau i'r Flwyddyn 2020	Y camau i'w cymryd yng Nghymru	Cyfrifoldeb
Dylai pob Llywodraeth adrodd yn rheolaidd i'r Senedd/Cynulliad ar y cynnydd a wneir yn eu gwlad a dylai fod gan Weinidogion Iechyd ddyletswydd i hyrwyddo rhoi a thrawsblannu organau'n effeithiol gan arwain at wella agwedd y cyhoedd yn sylweddol a chael mwy o bobl i roi caniatâd.	Cyhoeddi adroddiad blynyddol ar gynnydd o safbwynt gwella'r graddau o roi a thrawsblannu organau	Ar lefel Cymru gyfan – Llywodraeth Cymru
	Cyflwyno adroddiad, yn flynyddol o leiaf, i Grŵp Cyngorol Cymru Gyfan ar Roi a Thrawsblannu ynglŷn â pherfformiad mewn perthynas â'r dangosyddion penodol ar gyfer rhoi a thrawsblannu organau	Ar lefel leol – y Bwrdd Iechyd Lleol
Dylid cael trafodaeth genedlaethol i brofi agwedd y cyhoedd at gymryd mesurau radical i gynyddu nifer y rhoddwyr. Er enghraifft, a ddylai pobl ar y Gofrestr Rhoddwyr Organau (ODR) gael blaenoriaeth uwch pe bai angen eu rhoi ar y rhestr aros am organau.	I'w symud ymlaen ar lefel y DU	NHSBT/Llywodraeth Cymru ar y cyd ag adrannau iechyd eraill y DU
Sicrhau bod unrhyw system o ganiatâd tybiedig ar gyfer rhoi organau a meinwe a gyflwynir yng Nghymru, fel a ddisgrifir gan y Bil Trawsblannu Dynol (Cymru) mor llwyddiannus â phosibl, a dysgu o'r profiad hwn.	Gweithredu rhaglen waith, gan gynnwys hyfforddiant, er mwyn sicrhau bod Deddf Trawsblannu Dynol (Cymru) yn cael ei rhoi ar waith yn llwyddiannus	Llywodraeth Cymru/ NHSBT/Byrddau Iechyd Lleol
Datblygu cynllun gwirfoddolwyr cymunedol i helpu pwyllgorau rhoi'r Ymddiriedolaethau/ Byrddau Iechyd i hyrwyddo manteision rhoi mewn cymunedau lleol, yn enwedig ymhlith y grwpiau sydd heb lawer o draddodiad o roi organau.	Archwilio cyfleoedd i ddatblygu cynlluniau gwirfoddolwyr cymunedol Gweithio gyda'r Trydydd Sector i sicrhau cyfeirio effeithiol at ffynonellau o wybodaeth a chefnogaeth.	NHSBT/y trydydd sector/Cyrff Cydweithredol Rhanbarthol/Byrddau Iechyd Lleol
Yn dilyn y profiad yn yr Unol Daleithiau, sicrhau bod dymuniad pawb a wnaeth benderfyniad i roi pan oeddent yn fyw yn cael ei anrhydeddu os ydynt yn marw mewn amgylchiadau lle mae rhoi'n bosibl.	Bydd gwaith i ddatblygu hyn yn cael ei symud ymlaen ar lefel y DU a bydd Byrddau Iechyd Lleol yn ceisio gweithredu unrhyw newid gofynnol mewn arferion	NHSBT/Byrddau Iechyd Lleol

Canlyniad 2

Bydd gweithredu gan ysbytai a staff y GIG yn golygu bod y GIG, fel mater o drefn, yn darparu gofal rhagorol wrth gefnogi rhoi organau ac y gwneir pob ymdrech i sicrhau y gall pob rhoddwr roi cymaint ag sy'n bosibl o organau.

- Cynyddu nifer y bobl sy'n gallu cyfrannu ar ôl marwolaeth yr ymennydd.
- Cynyddu nifer y bobl sy'n gallu cyfrannu ar ôl marwolaeth yn sgil diffygion cylchrediad y gwaed a dysgu o gynllun peilot yr Alban ar roi ar ôl methiant i ddadebru.
- Sicrhau bod staff ysbytai'n cael y cymorth, yr hyfforddiant, yr adnoddau a'r wybodaeth y mae arnynt eu hangen i ddarparu gwasanaeth rhagorol o safbwynt rhoi organau.
- Sicrhau bod y gofal a roddir i bob rhoddwr, cyn tynnu organau, yn hyrwyddo ansawdd yr organau.

Y camau yn Mynd â Thrawsblannu Organau i'r Flwyddyn 2020	Y camau i'w cymryd yng Nghymru	Cyfrifoldeb
Dylai safonau ar Ofal Diwedd Oes hyrwyddo profion BSD fel y dull a ffefrir o roi diagnosis marwolaeth, lle gellir gwneud hyn a hynny sydd orau i'r claf.	Adolygu Blaenoriaethau Gofal Integredig Cymru a'r Dangosyddion Ansawdd ar gyfer Diwedd Oes, a chynnwys camau gweithredu os bydd angen hynny	WTAG/Bwrdd Gweithredu Gofal Lliniarol
Dylid adolygu arferion Gofal Diwedd Oes i ddarganfod a oes angen eu haddasu er mwyn hyrwyddo rhoi ar ôl DBD.	Caiff hyn ei weithredu eisoes yng Nghymru ac mae wedi'i ymgorffori yn y Blaenoriaethau ar gyfer Gofal Integredig a'r Dangosyddion Ansawdd ar gyfer Diwedd Oes	Bwrdd Gweithredu Gofal Lliniarol
Sefydlu Gwasanaeth Atgyfeirio Cenedlaethol i wella'r cymorth i ysbytai.	Bydd gwaith i ddatblygu hyn yn cael ei symud ymlaen ar lefel y DU a bydd Byrddau Iechyd Lleol yn ceisio gweithredu unrhyw newid sydd ei angen mewn arferion	NHSBT
Cwmpasu'r potensial ar gyfer rhoi'n dilyn ataliad annisgwyl ar y galon yn y DU, gan ddysgu o'r rhaglen beilot yn yr Alban.	Monitro canlyniad y rhaglen beilot yn yr Alban ac ystyried y potensial o fewn Cymru	WTAG

Y camau yn Mynd â Thrawsblannu Organau i'r Flwyddyn 2020	Y camau i'w cymryd yng Nghymru	Cyfrifoldeb
Dim ond rhywun sydd wedi'i hyfforddi'n benodol ac sy'n gymwys yn y rôl fydd yn cysylltu â theuluoedd rhoddwyr posibl, a bydd pecynnau hyfforddiant ac achrediad ar gael i rai sydd am ddatblygu'r cymhwysedd hwn.	Y GIG yng Nghymru i weithio gyda chyrff proffesiynol a Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG i sicrhau bod pecynnau hyfforddi ac achredu'n cael eu mabwysiadu ac mai dim ond rhywun sydd wedi cael ei hyfforddi'n benodol ac sy'n gymwys yn y rôl a fydd yn cysylltu â theuluoedd rhoddwyr posibl	Byrddau Iechyd Lleol/ Cyrff Proffesiynol yng Nghymru
	Darparu gwybodaeth fel bod timau cyffredinol yn gwybod sut i gael cymorth i hwyluso rhoi organau, os yw hyn yn addas	Byrddau Iechyd Lleol
Cydweithio er mwyn lleihau achosion o wrthwynebiad i roi organau gan y Crwner a'r gwasanaeth Procurator Fiscal a'r heddlu.	Camau gan y DU ar y cyd.	WTAG/NHSBT
Cyhoeddi data ysbytai, i gynnwys: Cyfraddau profion marwolaeth ymenyddol, cyfraddau atgyfeirio rhoddwyr, cyfraddau cysylltu â theuluoedd, rhan gan Nyrsys Arbenigol, a meysydd allweddol eraill.	Sicrhau bod data a gyhoeddir yn cael ei ddadansoddi ar lefel leol a bod unrhyw welliannau posibl mewn gwasanaethau'n cael eu hystyried a'u gweithredu lle bo'n angenrheidiol	Ar lefel y DU – NHSBT Data i'w gyhoeddi bob chwe mis o fis Medi 2013 Ar lefel leol – Byrddau Iechyd Lleol/WTAG

Canlyniad 3

Bydd camau a gymerir gan ysbytai a staff y GIG yn golygu y bydd modd defnyddio mwy o organau ac y bydd llawfeddygon yn cael gwell cymorth i drawsblannu organau'n ddiogel yn y derbynnydd mwyaf addas.

- Cynyddu nifer yr organau a dynnir oddi wrth roddwyr DBD a DCD.
- Cynyddu nifer yr organau y gellir eu trawsblannu'n ddiogel, gan roi gwybodaeth a chanllawiau i lawfeddygon i wneud penderfyniadau ar addasrwydd organau.
- Gwella goroesiad derbynwyr trawsblaniadau trwy wella dealltwriaeth o'r modd y mae'r organ a roddir yn cydweddu â'r sawl sy'n ei derbyn.

Y camau yn Mynd â Thrawsblannu Organau i'r Flwyddyn 2020	Y camau i'w cymryd yng Nghymru	Cyfrifoldeb
Rheoli rhoddwyr cardio-thorasic posibl yn well, gan ddarparu gwasanaeth 24/7 i gynorthwyo hyn os yw cynlluniau peilot yn profi'n effeithiol. (Peilot SCOUT)	Monitro canlyniad y rhaglen beilot ac ystyried y potensial o fewn Cymru	NHSBT/Byrddau Iechyd Lleol
Adolygu pa ymyriadau pre-mortem y byddai modd eu cyflawni'n gyfreithiol a moesegol er mwyn cynyddu'r potensial i roi organau (fel gweinyddu heparin, awyru dewisol, ayb).	Datblygu canllawiau ar ymyriad cyn marwolaeth lle gellir ystyried bod cydsyniad wedi'i roi.	Ar lefel y DU – UK DEC/Cyrff Proffesiynol ar y cyd â Llywodraeth Cymru ac adrannau iechyd eraill y DU
	Sicrhau bod unrhyw ganllawiau a ddatblygir yn cael eu gweithredu o fewn y GIG yng Nghymru	Ar lefel leol – Byrddau Iechyd Lleol
Gwerthuso technegau a thechnolegau newydd ar gyfer cadw organau wedi eu tynnu, gyda golwg ar eu defnyddio yn y DU.	Sicrhau bod unrhyw ganllawiau a ddatblygir yn cael eu gweithredu o fewn y GIG yng Nghymru	Ar lefel y DU – NHSBT/ Cyrff Proffesiynol Ar lefel leol – Bwrdd Iechyd Lleol Caerdydd a'r Fro/Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru (WHSSC)
Datblygu system o adolygu gan gyd-ganolfannau, wedi'i hategu gan gyfres o safonau, ar gyfer canolfannau tynnu/trawsblannu organau.	Sicrhau cyfranogiad a chydymffurfriad ag unrhyw system a sefydlir	Ar lefel y DU – NHSBT/ Cyrff Proffesiynol ar y cyd ag WHSSC a chomisiynwyr eraill y DU
	Cymryd rhan lawn mewn archwiliadau clinigol cenedlaethol a gweithredu ar eu canlyniad.	Ar lefel leol – Bwrdd Iechyd Lleol Caerdydd a'r Fro

Y camau yn Mynd â Thrawsblannu Organau i'r Flwyddyn 2020	Y camau i'w cymryd yng Nghymru	Cyfrifoldeb
Darparu canllawiau ar lefel y risg sy'n dderbyniol o ran organau a gynigiwyd, yn enwedig gan roddwyr meini prawf estynedig, sy'n berthnasol i anghenion a dymuniadau'r claf unigol.	Sicrhau bod unrhyw ganllawiau a ddatblygir yn cael eu gweithredu o fewn y GIG yng Nghymru	Ar lefel y DU – NHSBT/ Cyrff Proffesiynol Ar lefel leol – Byrddau Iechyd Lleol
Cyhoeddi data canolfan-benodol, wedi'i addasu yn ôl risg, ar gyfraddau goroesi cleifion ar restrï ac ar ôl trawsblaniad.	Sicrhau bod data a gyhoeddir yn cael ei ddadansoddi ar lefel leol a bod unrhyw welliannau posibl mewn gwasanaethau'n cael eu hystyried a'u gweithredu lle bo angen	Ar lefel y DU – NHSBT Ar lefel leol – Bwrdd Iechyd Lleol Caerdydd a'r Fro/WRCN/WHSCC
Sicrhau bod clinigwyr yn gwybod am ac yn dilyn ymarfer gorau er mwyn cynyddu cyfraddau goroesi cleifion a grafftio.	Sicrhau bod clinigwyr yn gwybod am yr arferion gorau ac yn eu dilyn Sicrhau bod derbynwyr trawsblaniadau'n derbyn y gofal a'r cymorth y mae arnynt ei angen	NHSBT/Cyrff Proffesiynol/WTAG/ Byrddau Iechyd Lleol

Canlyniad 4

Mae camau a gymerir gan NHSBT a Chomisiynwyr yn golygu y bydd gwell systemau a phrosesau cefnogi ar waith fel bod modd cynyddu nifer yr organau a roddir a'r llawdriniaethau trawsblannu sy'n digwydd.

- Helpu Cyrff Cydweithredol Rhanbarthol i arwain gwelliant lleol mewn rhoi a thynnu organau ac arferion trawsblannu a hyrwyddo rhoi organau.
- Adolygu a gwella'r gweithlu, TG, y systemau a'r prosesau sydd ar waith ar hyd y llwybr rhoi a thrawsblannu.
- Llunio rhaglen gynaliadwy o hyfforddiant a datblygiad i gefnogi'r broses o roi a thynnu organau.

Y camau yn Mynd â Thrawsblannu Organau i'r Flwyddyn 2020	Y camau i'w cymryd yng Nghymru	Cyfrifoldeb
Datblygu strategaeth gweithlu ar gyfer y gwasanaeth rhoi organau, a fyddai'n teilwrio'r gwasanaeth i anghenion ysbytai unigol ac yn ceisio darparu gweithlu sy'n canolbwyntio ar gefnogi'r galwadau croes weithiau o ddarparu gwasanaeth i deulu'r rhoddwr, rheoli rhoddwyr a chydgyssylltu rhoddwyr. Gellid darparu hyn drwy gyfrwng un neu fwy o rolau yn ôl anghenion y gwasanaeth.	Camau gan y DU ar y cyd	NHSBT/Byrddau Iechyd Lleol
Yn amodol ar amrywiadau mewn polisiâu Llywodraeth, cytuno ar gontract rhoi organau ffurfiol gyda'r ysbytai yn nodi sut ddylai'r ysbytai a gwasanaeth rhoi organau'r NHSBT weithio gyda'i gilydd i sicrhau rhagoriaeth.	Camau gan y DU ar y cyd	NHSBT/Llywodraeth Cymru/WHSSC/ Byrddau Iechyd Lleol
Y Cyrff Cydweithredol Rhanbarthol i arwain ar welliannau lleol mewn arferion rhoi, tynnu a thrawsblannu organau ac ar hyrwyddo rhoi a thrawsblannu organau ar lefel leol.	Datblygu a gweithredu cynllun gweithredu cydgysylltiedig i ysgogi gwelliannau mewn rhoi a thynnu organau ledled Cymru	Cyrff Cydweithredol Rhanbarthol Gogledd Cymru a De Cymru
	Datblygu a gweithredu cynllun cyfathrebu ar gyfer hyrwyddo rhoi a thrawsblannu organau	Llywodraeth Cymru/ Grŵp Cyfathrebu WTAG
	Hyrwyddo ymwybyddiaeth ymysg y cyhoedd o bwysigrwydd rhoi a thrawsblannu organau gan gynnwys rhoi gan bobl sy'n fyw.	Llywodraeth Cymru/ Grŵp Cyfathrebu WTAG/Byrddau Iechyd Lleol

Y camau yn Mynd â Thrawsblannu Organau i'r Flwyddyn 2020	Y camau i'w cymryd yng Nghymru	Cyfrifoldeb
Sicrhau bod gan y canolfannau trawsblannu'r capasiti a'r arbenigedd llawfeddygol, a sgiliau clinigol eraill, i ateb y galw am drawsblaniadau wrth i nifer y rhoddwyr gynyddu.	I gleifion sy'n derbyn trawsblaniadau o fewn Cymru	Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro/ WHSSC/Rhwydwaith Clinigol Arennol Cymru
	I breswylwyr Cymru y mae arnynt angen trawsblaniadau y tu allan i Gymru	WHSSC/Rhwydwaith Clinigol Arennol Cymru
Datblygu rhaglenni hyfforddiant i gynnal a gwella dealltwriaeth ac arbenigedd clinigwyr ar roi organau.	Bydd hyn yn cael ei symud ymlaen ar lefel y DU ac eithrio'r gofynion hyfforddi sy'n angenrheidiol o ganlyniad i Ddeddf Trawsblannu Dynol (Cymru)	NHSBT/Llywodraeth Cymru
Optimeiddio'r prosesau, yr amserlen, yr adnoddau a chefnogi TG ym mhob cam o'r llwybr, o adnabod rhoddwyr i oroesi hirdymor.	Gweithio gyda NHSBT i optimeiddio'r prosesau, yr amserlen, yr adnoddau a'r TG atodol ar bob cam o'r llwybr, o nodi rhoddwyr i oroesi hirdymor.	NHSBT/Byrddau Iechyd Lleol
Adolygu'r prosesau presennol ar nodi nodweddion rhoddwyr (yn enwedig ar gyfer microbioleg a chydawnsedd meinwe).	Gweithio gyda NHSBT i adolygu'r prosesau presennol ar gyfer priodoldd rhoddwyr (yn enwedig ar gyfer microbioleg a phrofi meinweoedd)	Ymddiriedolaeth GIG Felindre (Gwasanaeth Gwaed Cymru)/NHSBT
Datblygu a gweithredu rhaglen hyfforddiant ac achredu ar gyfer llawfeddygon tynnu organau, ac ymestyn y rhaglen i gefnogi technolegau post-mortem pan gyflwynir y rhain.	Bydd hyn yn cael ei symud ymlaen ar lefel y DU	NHSBT/Cyrff Proffesiynol
Ymchwilio i oblygiadau a pha mor ymarferol fyddai darparu gwasanaeth cynghori 24/7 gan arbenigwyr histopatholeg.	Gweithio gyda NHSBT i archwilio dichonoldeb ac oblygiadau cyflwyno darpariaeth 24/7 o gyngor histopatholeg arbenigol i breswylwyr Cymru	Ymddiriedolaeth GIG Felindre (Gwasanaeth Gwaed Cymru)/NHSBT

Meysydd gweithredu eraill

Y camau i'w cymryd yng Nghymru	Cyfrifoldeb
Nodi'r camau allweddol sy'n ofynnol er mwyn gwella'r cyfraddau rhoi organau gan adrannau achosion brys gan gynnwys: • Cyfeirio 100% o roddwyr posibl gan Adrannau Achosion Brys • Adnabod arweinydd rhoi ym mhob Adran Achosion Brys • Sicrhau bod cynrychiolydd o Adran Achosion Brys ar Bwyllgor Rhoi y Bwrdd Iechyd Lleol	Grŵp Cyngorol Cymru ar Drawsblannu yn gweithio gyda Byrddau Iechyd Lleol/ Cyrff Cydweithredol Rhanbarthol
Nodi'r camau allweddol sydd eu hangen er mwyn sicrhau cynnydd yn y cyfraddau rhoi gan bobl sy'n fyw.	Grŵp Cyngorol Cymru ar Drawsblannu yn gweithio gyda Byrddau Iechyd Lleol/ Cyrff Cydweithredol Rhanbarthol
Nodi'r camau allweddol sydd eu hangen er mwyn sicrhau bod cyfle cyfartal i gael trawsblaniad organau trwy ddefnyddio organau pobl fyw ag organau pobl a fu farw	Grŵp Cyngorol Cymru ar Drawsblannu yn gweithio gyda Byrddau Iechyd Lleol/ Cyrff Cydweithredol Rhanbarthol
Datblygu cynllun i helpu'r Byrddau Iechyd Lleol i wella gwasanaethau tynnu meinweoedd	Grŵp Cyngorol Cymru ar Drawsblannu yn gweithio gyda Byrddau Iechyd Lleol/ Cyrff Cydweithredol Rhanbarthol

Beth sydd angen ei wneud a pha bryd?

Cam allweddol	Cyfrifoldeb	Pa bryd
1. Ysgrifennu cynlluniau lleol sy'n dangos dull systematig a chynyddol o weithredu'r cynllun hwn	Pob Bwrdd Iechyd Lleol, mewn cydweithrediad ag Ymddiriedolaethau, WHSSC a'r trydydd sector	Erbyn Mawrth 2014
2. Cytuno ar raglen waith i fesur yr hyn a gyflawnir yn unol â'r Cynllun hwn, gan roi sylw i feysydd lle mae angen dull gweithredu ar gyfer Cymru gyfan	Grŵp Cyngorol Cymru ar Drawsblannu	Erbyn Mawrth 2014
3. Adroddiad cynnydd ffurfiol i'r Byrddau a Llywodraeth Cymru ar y canlynol: a) Cwblhau a chanlyniadau camau 1 b) Cynnydd wrth gyflawni'r cynllun gweithredu lleol a chyhoeddi hyn ar y wefan	Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau a Grŵp Cyngorol Cymru ar Drawsblannu	a) Erbyn diwedd Mawrth 2014 b) Erbyn diwedd Gorffennaf 2015 ac yn flynyddol wedyn
4. Adolygu a diweddarau cynlluniau a cherrig milltir	Pob Bwrdd Iechyd Lleol, mewn cydweithrediad ag Ymddiriedolaethau, WHSSC a'r trydydd sector	Yn flynyddol o leiaf, gyda'r adolygiad cyntaf erbyn Mawrth 2015
5. Cyhoeddi adroddiad blynyddol Cymru Gyfan sy'n seiliedig ar adroddiadau ar gam gweithredu 3	Byrddau Iechyd Lleol a Llywodraeth Cymru	Ar ôl cyhoeddi adroddiadau Byrddau Iechyd Lleol yng Ngorffennaf 2015 ac yn flynyddol wedyn
6. Sicrhau bod Deddf Trawsblannu Dynol 2013 yn cael ei gweithredu'n llwyddiannus	Llywodraeth Cymru/Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG	Erbyn Rhagfyr 2015